# ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2013/14

**Cynghorydd:** Mair Rowlands **Grŵp:** Plaid Cymru

**Ward:** Bangor - Menai

**Bwriad yr adroddiad blynyddol:**
Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.

**Rol a chyfrifoldebau:**
Pencampwr Llais Plant a Phobl Ifanc
Aelod o: Pwyllgor Craffu Corfforaethol, Pwyllgor Iaith, Panel Rhiantu Corfforaethol, Fforwm Bangor Ogwen, Tîm Prosiect Bangor.

**Gweithgareddau etholaethol:**

<u>Sicrhau Bangor Uchaf glân a thaclus</u>

- Trefnu a mynychu nifer o gasgliadau sbwriel gyda myfyrwyr yn yr ardal
- Wedi mynychu llawer i gyfarfod i drafod problemau gwastraff yn y ward yn enwedig y problemau gyda gwastraff tai myfyrwyr, mae trafodaethau yn parhau ond mae yna obaith i weithio'n agosach gyda'r Undeb Myfyrwyr a gweld gweithredu yn fuan.

<u>Diogelwch Cymunedol</u>

- Wedi cerdded o amgylch y ward gyda swyddog cymorth cymunedol yr heddlu sy'n gyfrifol am y ward llawer gwaith ar hyd y flwyddyn er mwyn tynnu sylw at unrhyw broblemau, Mae Galwyr Di-Groeso (Cold Callers) yn destun pryder ar hyn o bryd ac mae rhai o drigolion hŷn, bregus y ward wedi eu targedu, mae'r heddlu yn cadw golwg agos ar hyn. Wedi cael cyfarfod efo'r Inspector Neil Thomas hefyd ynglŷn â materion trwyddedu

<u>Materion Trwyddedu</u>

Wedi cynrychioli etholwyr fel yr aelod lleol mewn Pwyllgorau Trwyddedu i ddadlau yn erbyn 6 cais trwyddedu yn ymwneud ag amrywio trwyddedau eiddo i ymestyn oriau gweithgareddau trwyddedig safonol o ddarparu lluniaeth hwyr y nos a gwerthu alcohol i oriau hwyr y nos, ac un cais newydd ar gyfer yr un math o eiddo a gofynion trwyddedu.

Dadleais yn erbyn y ceisiadau am fod trigolion wedi datgan eu pryderon ynglŷn ag ymestyn yr oriau. Roedd y ceisiadau yn mynd yn groes i ddau o amcanion trwyddedu, sef y bydd yn arwain at fwy o niwsans cyhoeddus a throsedd ac anrhefn mewn cylchfa breswyl ac yn cyfrannu tuag at gynnydd yn yr aflonyddwch ym Mangor Uchaf gyda mwy o bobl yn casglu ar y stryd gan achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol, cynnydd yn lefel y sbwriel sydd yn cyfrannu at boen cymdeithasol a sŵn yn oriau man y bore.

<u>Tai Aml-Feddiannaeth (tai myfyrwyr)</u>

Wedi mynychu cyfarfodydd gyda thrigolion Parc Victoria oedd yn bryderus am effaith y cynnydd sylweddol iawn mewn anheddau aml-feddiannaeth a'r profiadau o anawsterau cyson i ddeiliaid parhaol yr ardal oherwydd eu heffaith, y nifer uchel o'r math yma o dai yn cael effaith negyddol ar gymeriad cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal. Yn dilyn y pryderon yma cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd rhwng swyddogion a cynghorwyr Bangor ynglŷn a'r materion a mynychais un cyfarfod rhwng aelodau cabinet, cynghorwyr a thrigolion oedd yn pryderu i drafod y pryderon a ystyried ffordd ymlaen.

Yn dilyn y cyfarfodydd yma dyma rai cyfleoedd posib i weithredu

- Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd newydd yn gyfle i edrych i weld beth ellid ei wneud.
- Mae angen rhoi sylw i sut all trwyddedu ddylanwadu ar wella safonau ac ansawdd tai aml-ddeiliadaeth
- Er mwyn i weithgaredd gorfodaeth fod yn effeithiol, mae angen targedu rhai achosion 'mawr'/drwg gan roi proffil uchel i'r gwaith ac unrhyw ganlyniadau.
- Angen gweithio i sicrhau bod perchnogion/landlordiaid yn cymryd cyfrifoldeb dros wella gan weld a ellir defnyddio treth busnes i yrru hyn ymlaen.

<u>Problemau Parcio a Diogelwch Ffordd</u>

Wedi cael nifer o drafodaethau gyda swyddogion a'r heddlu ynglŷn a phroblemau gyda modurwyr yn

parcio eu ceir ar draws lwybrau troed a phalmentydd gan achosi problemau sylweddol i gerddwyr a defnyddwyr eraill y ffordd yn ardal Bangor Uchaf. Yn dilyn y trafodaethau mae'r Cyngor a Heddlu Gogledd Cymru wedi lansio ymgyrch ar y cyd lle bydd rhybudd yn cael ei osod ar unrhyw gerbyd sydd wedi ei barcio ar lwybr troed neu balmant yn ardal Bangor Uchaf.

Cymorthfeydd

Wedi cynnal dwy gymhorthfa ar gyfer trigolion y ward, un gyda Aelod Cynulliad Arfon Alun Ffred Jones ac un gydag Aelod Seneddol Arfon Hywel Williams. Yn dilyn y cymorthfeydd rwyf wedi gorfod delio gyda nifer o achosion unigol gyda thrigolion y ward.

Eraill

Mynychu cyfarfodydd **Cymdeithas Bangor Uchaf** yn fisol a Bore Coffi'r Gymdeithas
Mynychu cyfarfodydd grŵp Beicio Bangor – grŵp ymgyrchu lleol ar gyfer beicwyr
Mynychu cyfarfodydd a hcefnogi'r Grŵp lleol Tyfu – edrych ar geisio ateb y galw am randiroedd ym Mangor. Y cyngor nawr yn edrych ar brydlesu tir ar gyfer sefydlu rhandiroedd ar ran o safle Nantporth, Bangor (Ward Menai)
25/04/13 Lansiad Llinell Amser Bangor
Ymweld a cartref henoed Bryn Llifon

**Mentrau a gweithgareddau eraill:**

- **Menter Iaith Bangor** - Aelod o Bwyllgor Llywio Menter Iaith Bangor, **24/09/13** - trefnu a mynychu Cyfarfod Cyhoeddus Sefydlu'r Fenter (siarad ar y Post Prynhawn a Newyddion 9. **31/03/14** digwyddiad lansio logo'r fenter
- Aelod o **Grŵp Iaith Cymunedol** Arfon
- Wedi cefnogi a gwirfoddoli gyda Grŵp Cymunedol Pobl Bangor yn Nigwyddiadau Nadolig Stryd Fawr Bangor, a Carnifal Bangor
- Cyfarwyddwr i gwmni Dewis Chwarae
- Hwyluso a mynychu cyfarfod rhwng cyn Brif weithredwr y cyngor a aelodau staff y brifysgol ynglŷn a cyfleoedd i gydweithio yn agosach.
- Mynychu Gweithdy Adeiladu Cymunedol a Llywodraethu a Gweithdy Adeiladu Cymunedol a'r Trydydd Sector: Cymdeithas Sifil a Cymuned Gynaliadwy ym Mhrifysgol Bangor
- Mynychu sesiwn Defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle fel rhan o Wythnos Busnes Gwynedd
- Siaradwr yn seremoni Ffeil Cynnydd Blwyddyn 11 Ysgol Ardudwy
- Fforwm Gwynedd yn bwydo mewn i 'r Gynhadledd Fawr am yr iaith Gymraeg
- Cyfweliad efo'r BBC ar gyfer rhaglen CF99 - Oes angen mwy o amrywiaeth o bobl mewn Llywodraeth leol?
- Cyfarfod Cynghrair Cymunedau Cymraeg yn yr Eisteddfod 08/08/13
- Dathliad Cyngor Gwynedd ar gyfer Penblwydd Statws Masnach Deg Cymru yn 5 oed
- 11/12/13 – Cynhadledd Flynyddol Plaid Cymru – Aberystwyth, 22-23/11/13 – Ysgol Aeaf Plaid Cymru. Glan Llyn y Bala, 7-8/03/14 Cynhadledd Wanwyn Plaid Cymru – Caerdydd. Mynychu cyfarfodydd Grŵp y Blaid yn rheolaidd dros y flwyddyn.
- Cynhadledd Flynyddol EEAC, "Rheoli Ecosystemau ar gyfer Pobl, Natur a'r Economi" ym Mhrifysgol Bangor
- Ymweliad efo GISDA sy'n darparu cefnogaeth a chyfleoedd i bobl ifanc y sir
- Cyfarfod Cyhoeddus Dim Peilonau (Ymateb i gynlluniau'r Grid Cenedlaethol)

**Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau canlynol:**

| PWYLLGOR | PRESENNOL |
|---|---|
| Y Cyngor | 3 |
| Pwyllgor Craffu Corfforaethol | 4 |
| Pwyllgor Iaith | 4 |
| Cyfarfod Paratoi Pwyllgor Craffu Corfforaethol | 1 |
| Fforwm Ardal Ogwen | 3 |

Canran Presenoldeb: 71%

**Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:**

*Fforwm Craffu*
*Ymchwiliad Craffu Caffael Cynaliadwy- Cadeirydd y grŵp*
*Gweithgor Cynyddu'r Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg mewn ysgolion uwchradd*
*Gweithdy Cynllun Strategol*
*Gweithdy Arbedion - Sefyllfa Ariannol y Cyngor a'r strategaeth ariannol arfaethedig*

*Seminar Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd*
*Seminar Safleoedd Cynllun Datblygu Lleol*
*Sesiwn Wybodaeth i Aelodau – Economi Gwynedd*
*Gweithdy 'Rôl Aelodau etholedig mewn ymgysylltu a'r cyhoedd'*
*Gweithdy i drafod sut i annog ailgylchu a chompostio bwyd yn y sir*
*Cyfarfodydd 'Dweud eich Dweud' ar gyfer plant a phobl ifanc mewn Gofal yng Ngwynedd*
*Cyfarfodydd gyda Rheolwr Gwireddu Plant a Phobl Ifanc i drafod Addewid Plant mewn Gofal*

| **Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol canlynol:** | **Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y cyfarfodydd canlynol:** |
|---|---|
| *Cyngor Iechyd Cymuned*<br>*Ysgol Cae Top (Llywodraethwyr Ysgol)*<br>*Ysgol Friars (Llywodraethwr Ysgol)*<br>*Bwrdd Rheoli Unedau Cyfeirio Gwynedd*<br>*Grŵp Cyswllt Prifysgol Bangor* | *Seremoni Ffeil Cynnydd Blwyddyn 11 Ysgol Ardudwy*<br>*Grŵp Cyswllt Prifysgol Bangor*<br>*Pwyllgor Lleol Gwynedd y Cyngor Iechyd Cymuned* |

**Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu canlynol:**

| **Corfforaethol** |
|---|
| Data Perfformiad Awdurdod ac Ysgolion |
| Llywodraethu Ysgolion a Diogelu Plant |
| Gwybodaeth am Bobl: Eich Cyfrifoldeb Chi |
| Polisi Gosod Tai a Chyfrifoldebau Statudol |
| Strwythur a Chyflwr Economi Gwynedd |

| **Ychwanegol** |
|---|
| Cyfathrebu (Sgiliau Dylanwadu/Negodi) |
| Delio Gyda'r Wasg |
| Rhaglen Hyfforddiant Academi Arwain CLILC (3 penwythnos) |

Cyfanswm nifer o oriau: 23.5